*ADRODDIAD ARCHWILIAD MEWNOL*

Archwilio Mewnol
Cyngor Gwynedd

# CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD A STAR

## ARCHWILIAD MEWNOL
## CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD A STAR

**1. Bwriad yr Archwiliad**

1.1 Bwriad yr archwiliad oedd adolygu trefniadau ariannol a llywodraethu'r Cyngor yn unol â ymarfer priodol fel yr amlinellir yng nghyhoeddiad Un Llais Cymru / Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol "Llywodraethu ac Atebolrwydd i Gynghorau Lleol yng Nghymru - Canllaw Ymarferydd 2019".

1.2 Roedd yr archwiliwr mewnol yn ymgymryd â rhaglen waith yn seiliedig ar asesiad o risg. Roedd cwmpas a maint yr archwiliad yn gymesur ag anghenion, maint ac amgylchiadau'r Cyngor, ac yn seiliedig ar sampl o ddogfennau.

**2. Prif Ddarganfyddiadau**

2.1 Dengys yn Atodiad A yr amcanion rheolaethol a brofwyd ac a gafwyd yn foddhaol.

**3. <u>Barn yr Archwiliad</u>**

**Gellir datgan sicrwydd rhannol yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu Cyngor Cymuned Penmynydd a Star ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25 yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd ond bod rhai elfennau y gellir eu tynhau i liniaru risgiau a adnabuwyd. Argymhellir bod y Cyngor yn ymrwymo i roi sylw i'r risgiau canlynol a chymryd camau priodol i'w lliniaru:**

- **Diffyg gwahanu dyletswyddau wrth greu a phrosesu taliadau ar lein.**
- **Methiant i osod cyllideb cytbwys**

**4. Cydnabyddiaeth**

4.1 Hoffai'r archwiliwr ddiolch i'r Clerc am y cymorth a'r cydweithrediad wrth baratoi'r adroddiad archwilio hwn.

**LUNED FÔN JONES**
**Rheolwr Archwilio**
Gorffennaf 2025

**ATODIAD A**

**AMCANION RHEOLAETHOL A DARGANFYDDIADAU'R ARCHWILIAD**

Mae archwiliad mewnol y Cyngor, gan weithredu'n annibynnol ac ar sail asesiad o risg, wedi cynnwys cynnal asesiad dewisol o gydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau a'r rheolaethau perthnasol y disgwylir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol ddaeth i ben 31 Mawrth 2025.

Cynhaliwyd yr archwiliad mewnol yn unol ag anghenion y Cyngor. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, ceir crynodeb o gasgliadau'r archwiliad mewnol isod ar y rheolaethau sy'n cael eu bodloni drwy gydol y flwyddyn ariannol i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Cyngor.

- Llyfrau cyfrifon priodol wedi'u cadw'n briodol drwy gydol y flwyddyn

- Bodlonwyd rheoliadau ariannol a chefnogwyd taliadau gan anfonebau
- Cymeradwyd gwariant yn y cyfarfodydd, ond nid oes rheolaethau dros atal unigolyn rhag prosesu taliad ar lein heb gymeradwyaeth aelod arall
- Rhoddwyd cyfrif priodol am TAW, ond nid oes colofn ar wahân ar ei gyfer yn y llyfr arian

- Asesodd y corff y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer eu rheoli

- Cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd
- Roedd y cronfeydd wrth gefn yn briodol

- Cafodd yr incwm disgwyliedig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n syth

- Talwyd cyflogau i gyflogeion yn unol â chymeradwyaethau a gofnodwyd
- Talwyd lwfansau i aelodau yn unol â chymeradwyaethau a gofnodwyd
- Cymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol

- Cofrestrau asedau yn gyflawn, yn gywir, ac yn cael eu cynnal yn briodol

- Cysoniadau cyfrifon banc ar ddiwedd y flwyddyn wedi eu cynnal yn briodol

- Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail cyfrifyddu gywir (derbyniadau a thaliadau), roeddent yn gyson â'r llyfr arian parod, ac wedi'u cefnogi gan drywydd archwilio digonol o gofnodion sylfaenol

- Mae'r Cyngor wedi paratoi adroddiad blynyddol, cynllun bioamrywiaeth a chynllun hyfforddiant